SWYDDFA **COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDD** GOGLEDD CYMRU

OFFICE OF THE **POLICE & CRIME COMMISSIONER** NORTH WALES

Cylchlythyr #10 SCHTh Gogledd Cymru – 16 Rhagfyr 2022
OPCC North Wales Newsletter #10 – 16 December 2022

Nadolig Llawen oddi wrth Gomisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru

Wrth i'r flwyddyn ddirwyn i ben a ninnau'n edrych ymlaen at gyfnod yr ŵyl, hoffwn ddymuno Nadolig Llawen iawn a Blwyddyn Newydd Dda hapus i chi, eich teuluoedd, ffrindiau ac anwyliaid. Mae 2022 wedi bod yn flwyddyn hynod o brysur i bawb ar draws teulu'r gwasanaethau brys yn gweithio i wneud Gogledd Cymru mor ddiogel â phosibl i'r holl drigolion. Gan edrych ymlaen at 2023, byddaf hefyd yn gweithio mor galed ag erioed i sicrhau bod fy Nghynllun Heddlu a Throsedd yn parhau i fod wrth wraidd plismona, a bod ei addewidion craidd o sicrhau cymdogaethau mwy diogel, cynorthwyo dioddefwyr a chymunedau, a system cyfiawnder troseddol deg ac effeithiol yn cael eu cyflawni er budd pobl yr ardal.

Mae'r Nadolig a'r Flwyddyn Newydd bob amser yn gyfnod heriol i blismona, gyda'r dathliadau yn eu hanterth a phobl yn mwynhau eu hunain. Mae'n ddyletswydd ar ein swyddogion a'n staff i warchod ein trigolion ac ymwelwyr rhag niwed. Gwn y gall hyn fod yn aml am bris i swyddogion heddlu, staff heddlu a'u teuluoedd, sy'n gweithio sifftiau pan allai pobl eraill fod gartref yn mwynhau'r Nadolig. Ond fel Comisiynydd Heddlu a Throsedd, rwyf yn siŵr y gallaf siarad ar ran holl drigolion ac ymwelwyr Gogledd Cymru pan ddywedaf ein bod yn ddiolchgar iawn i bob un ohonynt am yr holl waith caled maent yn ei wneud i sicrhau diogelwch pobl ar draws y rhanbarth.

Cyfarchion y tymor,
Andy Dunbobbin,
Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru

Merry Christmas from the North Wales Police & Crime Commissioner

As the year draws to a close and we look forward to the festive period, I would like to wish a very merry Christmas and happy New Year to you, your families, friends and loved ones. 2022 has been an extremely busy year for everyone across the emergency services family working to make North Wales as safe and secure as possible for all residents. Looking forward to 2023, I will also be working as hard as ever to ensure my Police and Crime Plan remains at the heart of policing, and that its core pledges of delivering safer neighbourhoods, supporting victims and communities, and a fair and effective criminal justice system are achieved for the benefit of the people of the area.

Christmas and New Year is always a demanding period for policing, with festivities in full swing and people enjoying themselves. It is the duty of our officers and staff to keep our residents and visitors from harm. I know that this can often come at a price for police officers, police staff and their families, working shifts when others might be at home enjoying the festive season. But as Police and Crime Commissioner, I am sure I can speak for all residents and visitors to North Wales when I say that we are very grateful to each and every one of them for all the hard work that they do to ensure the safety and security of people across the region.

Season's greetings,
Andy Dunbobbin,
North Wales Police & Crime Commissioner

Gwahoddiad i brosiectau cymunedol i wneud cais am arian i ddathlu 10 mlynedd o Eich Cymuned, Eich Dewis

Mae Eich Cymuned, Eich Dewis, a gefnogir gan Ymddiriedolaeth y Gymuned a Heddlu Gogledd Cymru (PACT), a Heddlu Gogledd Cymru yn dathlu deng mlynedd o ariannu prosiectau yn 2023 ac i ddathlu'r garreg filltir hon, mae'r arian sydd ar gael i wneud cais amdano wedi dyblu i £120,000.

Ers y dechrau mae Eich Cymuned, Eich Dewis wedi noddi prosiectau sy'n dod â phobl a sefydliadau at ei gilydd, gan greu cymuned fwy diogel i bawb.

Dros y deng mlynedd diwethaf mae cyfanswm o dros £428,792 wedi cael ei roi i 149 o brosiectau yn gweithio i gefnogi'r blaenoriaethau yn y Cynllun Heddlu a Throsedd. **Darllenwch fwy am sut i wneud cais yma.**

Community projects invited to apply for funding to celebrate 10 years of Your Community, Your Choice

The Your Community, Your Choice initiative, supported by the North Wales Police and Community Trust (PACT) and North Wales Police celebrates a decade of funding projects in 2023 and to celebrate this milestone, the funding available to apply for has doubled to £120,000.

Since its inception, Your Community, Your Choice has sponsored grass-roots projects that bring people and organisations together, ultimately creating a safer environment for all.

Over the past ten years, a total of £428,792 has been awarded to 149 projects working to support the priorities in the Commissioner's Police and Crime Plan. **Read more on how to apply here.**

CHTh yn gweld sut mae Y Bont yn cau'r gagendor rhwng bywyd yn y carchar a bywyd teulu i ferched

Aeth Andy Dunbobbin i bencadlys Y Bont ym Mhenygroes ar 8 Rhagfyr i weld sut mae arian o'i fenter Arloesi i Dyfu yn cynorthwyo i helpu merched a'u teuluoedd yn cael eu heffeithio gan garchar yng Ngogledd Cymru.

Mae'r prosiect o'r enw Cwlwm yn cael ei arwain gan Y Bont, i ateb anghenion plant a phobl ifanc sydd am ba bynnag reswm wedi eu gwahanu - neu sydd mewn perygl o gael eu gwahanu - oddi wrth eu teuluoedd ac i roi cefnogaeth iddynt. **Darllenwch fwy yma.**

PCC sees how Y Bont is bridging the gap between prison and family life for women

Andy Dunbobbin visited the headquarters of Y Bont in Penygroes on 8 December to see how funding from his Innovate to Grow initiative is helping to support women and their families affected by imprisonment in North Wales.

The project, called Cwlwm, is being spearheaded by Y Bont, the charitable organisation that works to meet the needs of children and young people who, for whatever reason, are separated – or are at risk of being separated – from their families, and to give them support. **Read more here.**

Arolwg Praesept SCHTh 2022 ar gyfer y Flwyddyn Ariannol 2023-24

Mae Arolwg Praesept SCHTh bellach ar agor.

Mae eich barn yn bwysig er mwyn cynorthwyo'r Comisiynydd i bennu'r gyllideb ar gyfer 2023/24, yn benodol o ran faint y dylai'r praesept ei gynyddu. Y praesept yw'r rhan o Dreth y Cyngor sy'n talu am blismona yn eich ardal.

Cwblhewch ein harolwg yma.



OPCC Precept Survey 2022 for Financial Year 2023-24

The OPCC Precept Survey is now open.

Your views are important in assisting the Commissioner to determine the budget for 2023/24, specifically by what amount the precept should increase. The precept is the part of the Council Tax which pays for policing in your area.

Complete our survey here.

Rhybudd Cymunedol

Cofrestrwch yma ar gyfer Rhybudd Cymunedol Gogledd Cymru i dderbyn y wybodaeth ddiweddaraf am droseddau, digwyddiadau, apeliadau, cyngor atal trosedd a gweithgareddau plismona cyffredinol yn eich ardal. Mae cofrestru yn rhad ac am ddim ac yn gyflym a syml.

Community Alert

Register here for North Wales Community Alert to receive up to date information about crime, engagement events, appeals, prevention advice and general policing activity in your local area. Registration is completely free, quick and simple.

SWYDDFA COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDD GOGLEDD CYMRU | **OFFICE OF THE POLICE & CRIME COMMISSIONER NORTH WALES**

Rydych chi'n derbyn yr e-bost hwn oherwydd eich bod wedi cofrestru i dderbyn ein e-byst cylchlythyrau.
You are receiving this email as you signed up to receive our newsletter updates.

Eisiau newid sut rydych chi'n derbyn yr e-byst hyn?
Cysylltwch â ni drwy socialmedia@northwales.police.uk i ddiweddaru eich dewisiadau neu ddad-danysgrifio o'r rhestr hon.

Want to change how you receive these emails?
Contact us via socialmedia@northwales.police.uk to update your preferences or unsubscribe from this list.

Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru
Pencadlys yr Heddlu
Glan y Don
Bae Colwyn
Conwy LL29 8AW

Office of the Police and Crime Commissioner
North Wales
Police Headquarters
Glan y Don
Colwyn Bay
Conwy LL29 8AW

Gallwch ddarllen ein polisi preifatrwydd yma:
https://www.northwales-pcc.gov.uk/cy/polisi-preifatrwydd

You can read our privacy policy here:
https://www.northwales-pcc.gov.uk/privacy-policy